# Y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl)

## Cofnodion (MH(3)-07-08)

**Dyddiad: 13 Mai 2008**

**Amser: 09.30-11.15am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

**Aelodaeth:**

Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor fel a ganlyn:

David Melding AC (Cadeirydd)

Janice Gregory AC

Bethan Jenkins AC

Val Lloyd AC

Jenny Randerson AC

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Anna Daniel, Clerc

Olga Lewis, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

### Tystion

Alexandra McMillan, Swyddog Polisi a Gwybodaeth, Gofal Cymru

Ewan Hilton, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gofal Cymru

Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi, Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru

Ian Hulatt, Ymgynghorydd Coleg Brenhinol y Nyrsys ar Iechyd Meddwl

Kay Powell, Cyfreithiwr ac Ymgynghorydd Polisi, Cymdeithas y Cyfreithwyr

Yr Athro Phil Fennel, Ysgol y Gyfraith Caerdydd, Aelod Pwyllgor Cymdeithas y Gyfraith ar Iechyd Meddwl ac Anabledd, Cymdeithas y Gyfraith

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Nododd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### Eitem 2: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008 (Ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl) - Trafodaeth gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoddodd Alexandra McMillan, Swyddog Polisi a Gwybodaeth ac Ewan Hilton, Cyfarwyddwr Gweithredol yn cynrychioli Gofal Cymru, dystiolaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008 (ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl). Yn dilyn eu tystiolaeth cafwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Yn dilyn tystiolaeth Gofal Cymru, rhoddodd Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru a Ian Hulatt, Ymgynghorydd Coleg Brenhinol y Nyrsys ar Iechyd Meddwl a oedd yn cynrychioli Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru, dystiolaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Gorchymyn uchod. Clywodd yr Aelodau hefyd dystiolaeth gan Kay Powell, Cyfreithiwr ac Ymgynghorydd Polisi a'r Athro Phil Fennel, Ysgol y Gyfraith Caerdydd, Aelod Pwyllgor Cymdeithas y Gyfraith ar Iechyd Meddwl ac Anabledd, a oedd yn cynrychioli Cymdeithas y Gyfraith. Bydd trawsgrifiad manwl o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar dudalennau'r Pwyllgor ar y wefan.

**Eitem 3: Unrhyw Fater Arall**

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y byddant yn cael trafodaeth gyda Jonathan Morgan AC, a fydd yn dychwelyd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 4: Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 20 Mai 2008.